PAC(3) 13-10(p2)

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

7 Hydref 2010
www.wao.gov.uk

# Trefniadau llywodraethu newydd arfaethedig ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru – Papur briffio ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

# Cynnwys


Cyflwyniad 4

Manylion pellach am y trefniadau llywodraethu newydd arfaethedig 5

Trefniadau llywodraethu cyfredol Swyddfa Archwilio Cymru 6

Gwelliannau arfaethedig i drefniadau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru 7

# Cyflwyniad

1 Cyn i mi gael fy mhenodi yn Archwilydd Cyffredinol, adolygais drefniadau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru gydag uwch aelodau o staff Swyddfa Archwilio Cymru a'm rhagflaenydd, Ms Body. Rwyf wedi cael fy mriffio'n llawn ar ganfyddiadau Adolygiad Diwydrwydd Dyladwy Swyddfa Archwilio Cymru i weithgareddau'r cyn-Archwilydd Cyffredinol, Mr Colman. Ynghyd â'm profiad personol fel o redeg sefydliadau sector cyhoeddus mawr fel Swyddog Anweithredol a Gweithredol, rwyf hefyd wedi ystyried argymhellion yr Adolygiad Cymheiriaid Rhyngwladol o Swyddfa Archwilio Cymru, a'r egwyddorion llywodraethu da a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Annibynnol er Llywodraethu Da mewn Gwasanaethau Cyhoeddus.

2 Yn gryno, ystyriaf fod trefniadau llywodraethu cyfredol Swyddfa Archwilio Cymru yn wallus ac nad ydynt yn darparu'r gwiriadau na'r cydbwysedd angenrheidiol y byddai eu hangen mewn sefydliadau a reolir yn dda yn y sector preifat neu'r sector cyhoeddus. Mae angen gwelliannau ar frys, i wneud Swyddfa Archwilio Cymru yn fwy agored ac atebol. Rhaid ehangu'r gwaith goruchwylio anweithredol annibynnol ar y ffordd y caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei rhedeg gan gynnwys craffu ar weithgarwch Cydnabyddiaeth, Adnoddau Dynol, Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth yn ogystal â'r gwaith goruchwylio sydd eisoes ar waith ym maes Archwilio a Rheoli Risg.

3 Rwy'n bwriadu sefydlu tri phwyllgor; aelodau anweithredol yn unig, a gaiff eu recriwtio drwy ddilyn egwyddorion Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus, i oruchwylio meysydd Cydnabyddiaeth, Adnoddau, ac Archwilio a Rheoli Risg. Cyhoeddir agendâu a chofnodion y pwyllgorau a chaiff Adroddiad Llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru ei lunio'n flynyddol.

4 Bwriadaf sicrhau bod trefniadau llywodraethu newydd Swyddfa Archwilio Cymru ar waith erbyn 1 Ebrill 2011. Mae gweddill y papur hwn yn rhoi manylion pellach am y trefniadau a gynigir gennyf a sut y byddant yn gweithio'n ymarferol.

# Manylion pellach am y trefniadau llywodraethu newydd arfaethedig

5 Mae a wnelo llywodraethu corfforaethol â'r ffordd y caiff sefydliadau eu cyfarwyddo a'u rheoli. Mae a wnelo trefniadau llywodraethu corfforaethol â gwneud y pethau cywir yn y ffyrdd cywir ar yr adeg gywir i gyflawni amcanion y sefydliad mewn ffordd dryloyw ac atebol, gan sicrhau'r risg leiaf posibl a'r perfformiad gorau posibl.

6 Er mwyn gweithredu'n briodol, rhaid i mi, fel Archwilydd Cyffredinol, fod yn gwbl annibynnol ar ddylanwad gwleidyddol neu ddylanwad arall dros yr hyn a archwiliaf a'r ffordd y cyflwynaf fy nghanfyddiadau. Fodd bynnag, rhaid i mi hefyd fod yn atebol yn briodol am y ffordd rwy'n cyflawni gwaith archwilio ac am yr arian cyhoeddus a werir gennyf. Byddai gwneud fel arall yn bradychu'r ymddiriedaeth a roddwyd ynof. Rhaid i'm hannibyniaeth a'm hatebolrwydd weithio ochr yn ochr â'i gilydd ac o fewn trefniadau llywodraethu syml a thryloyw.

7 Edrychodd y sawl a gynhaliodd yr Adolygiad Cymheiriaid Rhyngwladol ar drefniadau llywodraethu mewn 15 o gyrff archwilio ac arolygu yn fyd-eang. Nid oedd gan unrhyw ddau gorff drefniadau unfath, ond roedd gan bob un ohonynt nodweddion tebyg o ran atebolrwydd i Lywodraeth, a phresenoldeb craffu anweithredol. Ni nododd y Cymheiriaid un model 'cywir'. Fodd bynnag, diystyrwyd yn benodol y model 'endid corfforaethol' fel model amhriodol oherwydd y risg o beri dryswch o ran atebolrwydd yr Archwilydd Cyffredinol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

8 Nododd Adolygiad Diwydrwydd Dyladwy Swyddfa Archwilio Cymru feysydd y mae angen eu gwella er mwyn i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru allu dangos atebolrwydd, tryloywder a rheolaeth agored. Mae fy rhagflaenydd, Ms Body, fel Archwilydd Cyffredinol Interim, a Phwyllgor Gweithredol Swyddfa Archwilio Cymru wedi dechrau gweithio ar y materion hyn. Bwriadaf fynd â'r materion hyn rhagddynt, ymhellach ac yn gyflym.

9 Rwy'n cymeradwyo egwyddorion llywodraethu da y Comisiwn Annibynnol er Llywodraethu Da mewn Gwasanaethau Cyhoeddus, sef:

- canolbwyntio ar ddiben y sefydliad ac ar ganlyniadau ar gyfer dinasyddion/defnyddwyr gwasanaeth;
- perfformio'n effeithiol mewn swyddogaethau a rolau a ddiffinnir yn glir;
- datblygu gallu ac adnoddau'r corff llywodraethu i fod yn effeithiol;
- gwneud penderfyniadau hyddysg, tryloyw a rheoli risg;
- hyrwyddo gwerthoedd ar gyfer y sefydliad cyfan a dangos llywodraethu da drwy ymddygiad; ac
- ymgysylltu â rhanddeiliaid a sicrhau atebolrwydd gwirioneddol.

10 Yn unol ag egwyddorion llywodraethu da, mae fy nghynigion yn golygu y gellir cymhwyso manteision craffu anweithredol ar waith cynllunio a pherfformiad strategol a busnes. Maent yn mynd i'r afael â chynigion yr Adolygiad Cymheiriaid a chanfyddiadau'r Adolygiad Diwydrwydd Dyladwy, ac maent yn gyson ag egwyddorion llywodraethu da.

11 Yr hyn sy'n allweddol o ran y trefniadau newydd yw fy mwriad y byddaf i, a Swyddfa Archwilio Cymru, yn agored ac yn atebol. Bydd y didwylledd a'r atebolrwydd yn:

- cael eu hysgogi gan fy arweiniad o Swyddfa Archwilio Cymru, a chyda cefnogaeth fy uwch aelodau o staff; a
- chael eu meithrin ar sail llawer mwy o graffu anweithredol, herio ac adrodd ar fy ngweithgareddau arnaf i a gweithgareddau Swyddfa Archwilio Cymru.

12 Disgrifir trefniadau cyfredol Swyddfa Archwilio Cymru a'r gwelliannau y byddaf yn eu gwneud isod.

## Trefniadau llywodraethu cyfredol Swyddfa Archwilio Cymru

13 Mae trefniadau llywodraethu cyfredol Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys:

A **Gofynion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus** ohonof fel Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru sy'n cynnwys:

- sicrhau safon uchel o ran gwaith rheoli ariannol Swyddfa Archwilio Cymru a chynnal busnes mewn ffordd effeithlon a darbodus gan ddiogelu priodoldeb a rheoleidd-dra ariannol;
- sicrhau bod trefniadau priodol ar waith, gan gynnwys cyfraniad anweithredol, i roi sylwadau a chyngor ar drefniadau llywodraethu; a
- chadw cofnodion cyfrifyddu cywir, a llofnodi'n bersonol gyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru.

B **Archwiliad Allanol**: Yn unol â'r egwyddor na ddylai corff cyhoeddus benodi ei archwilwyr ei hun, penodir fy archwilwyr allanol gan y Cynulliad Cenedlaethol ac maent yn atebol iddo.

C **Mae'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg** yn cynnwys Cadeirydd a phum aelod anweithredol. Mae'r pwyllgor yn cyflwyno sylwadau ac yn rhoi cyngor ar reoli risg, gwaith rheoli a llywodraethu. Gall Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg gysylltu â mi a Chadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, a gallhysbysu Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am faterion sy'n achosi pryder yn uniongyrchol, fel y digwyddodd yn achos ymddiswyddiad Mr Colman.

**CH** **Y Pwyllgor Gweithredol,** yr wyf yn ei Gadeirio, gyda thri aelod gweithredol. Y pwyllgor hwn yw prif gorff gwneud penderfyniadau Swyddfa Archwilio Cymru sy'n arwain ac yn cyfeirio'r busnes. Mae aelodau'r Pwyllgor Gweithredol yn gweithio gyda mi, gan dderbyn cyfrifoldeb ar y cyd am waith y pwyllgor a chyfrifoldeb personol am y meysydd o'r busnes a neilltuir iddynt.

**D** **Swyddogaeth Cydymffurfiaeth Swyddfa Archwilio Cymru** sy'n cynnwys cyflawni rhai o'm swyddogaethau statudol allweddol, a rheoli trefniadau llywodraethu a rheoleiddio fel archwilio a rheoli risg yn fewnol. Gall y Partner Cydymffurfiaeth gysylltu â mi a Chadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, a gall hysbysu Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am faterion sy'n achosi pryder, unwaith eto, fel y digwyddodd yn achos ymddiswyddiad Mr Colman.

**14** Y diffyg allweddol o ran y trefniadau llywodraethu cyfredol yw nad ydynt yn darparu gwaith craffu na gwiriadau anweithredol annibynnol digonol ar gyfer pob rhan o weithgarwch gweithredol Swyddfa Archwilio Cymru. Mae gormod o ddibyniaeth ar y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg. Mae gan y pwyllgor fwy o aelodau a chyfrifoldebau bellach, ond gellir dadlau ei fod yn canolbwyntio llai ar waith archwilio a rheoli risg.

**15** Yn ogystal â hyn, nid yw Swyddfa Archwilio Cymru wedi bod yn ddigon tryloyw nac yn ddigon atebol i'r cyhoedd am ei gweithgareddau gweithredol naill ai o ran cyflwyno adroddiadau cyhoeddus neu gyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Yn hanfodol, mae'r trefniadau cyfredol yn cynnwys risg y gall yr Archwilydd Cyffredinol ddechrau camau gweithredol sylweddol sy'n ymwneud â rheolaeth Swyddfa Archwilio Cymru heb fod y rhain yn destun gwaith craffu priodol.

## Gwelliannau arfaethedig i drefniadau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru

**16** Yn sgîl y diffygion uchod, bwriadaf greu'r trefniadau llywodraethu ychwanegol canlynol:

**DD** **Pwyllgor Adnoddau** (Adnoddau Dynol, TG a Chyllid)

- Bydd y pwyllgor hwn yn herio ac yn craffu ar waith rheoli priodol mewn perthynas â gweithgareddau ym meysydd Adnoddau Dynol, Technoleg Gwybodaeth a Chyllid. Bydd hyn yn cynnwys strategaeth a threfniadau Adnoddau Dynol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar allu Swyddfa Archwilio Cymru i recriwtio, datblygu a chadw'r staff o safon uchel sydd eu hangen arni i gyflawni ei hamcan; y gwaith o gyflawni fy nghyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu yn briodol; a'r defnydd effeithiol a diogel o dechnoleg gwybodaeth.

**E** **Pwyllgor Cydnabyddiaeth**

- Bydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cyflawni gwaith craffu penodol a manwl ac yn herio pob agwedd ar gydnabyddiaeth staff Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd hyn yn ystyried y ffordd y caiff gofynion rheoleiddiol eu cymhwyso, yn gyson â'r disgwyliadau ar sefydliad sector cyhoeddus.

17 Bydd pob pwyllgor (Cydnabyddiaeth, Adnoddau, ac Archwilio a Rheoli Risg) yn:

- cynnwys pedwar aelod anweithredol â chymwysterau addas, y bydd un ohonynt yn cadeirio'r pwyllgor - bydd gan Gadeiryddion yr hawl i gysylltu â mi a Chadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus;
- cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn;
- cysylltu â phwyllgorau eraill i gydgysylltu eu gweithgareddau a'u camau gweithredu fel y bo'n briodol (gall aelodau eistedd ar fwy nag un pwyllgor);
- rhoi cyngor ar gais, neu fel yr ystyrir yn briodol, gan roi cyngor allanol na fyddwn yn gallu ei gael fel arall;
- cael ei rymuso i gyfethol arbenigwyr os cytunir bod angen gwneud hynny o ran pynciau penodol sy'n destun craffu; a
- chyhoeddi agendâu a chofnodion, a llunio adroddiad blynyddol a fydd yn rhan o Adroddiad Llywodraethu blynyddol a gyhoeddir gennyf ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

18 Nodais yn gynharach er mwyn cadw'r ymddiriedaeth a roddwyd ynof fel Archwilydd Cyffredinol, bod yn rhaid i mi fod yn gwbl annibynnol o ran yr hyn a archwilir gennyf a'r ffordd yr wyf yn cyflwyno fy nghanfyddiadau; ond rhaid i mi hefyd fod yn atebol yn briodol am y ffordd rwy'n cyflawni gwaith archwilio ac am yr arian cyhoeddus a werir gennyf. Cytunaf â chasgliad yr Adolygiad Cymheiriaid felly na ddylai trefniadau llywodraethu beri dryswch o ran fy atebolrwydd i'r Cynulliad Cenedlaethol, a chyda'i farn y byddai trefniant Bwrdd Llywodraethu yn amhriodol ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru.

19 Fodd bynnag, er mwyn sicrhau a dangos fy atebolrwydd ymhellach, rwy'n cynnig y dylid sefydlu Fframwaith Goruchwylio sy'n cynnwys: Goruchwylio Strategol, a Chynhadledd Llywodraethu Flynyddol. Bydd y Fframwaith Goruchwylio yn dwyn y tri Phwyllgor Llywodraethu at ei gilydd gyda chyfraniad annibynnol ehangach, a chyflwyno adroddiadau cyhoeddus.

20 Drwy ei gwmpas a'i drefniadau adrodd, bydd y Fframwaith Goruchwylio yn gwarantu fy atebolrwydd i'r Cynulliad Cenedlaethol, ac eglurder yr atebolrwydd hwnnw.

### F Goruchwylio Strategol

- Bob chwe mis, bydd Cadeiryddion y tri Phwyllgor Llywodraethu (Archwilio a Rheoli Risg, Adnoddau, Taliadau) yn cwrdd â mi â'm Pwyllgor Gweithredol i adolygu'r hyn y bwriadwyd ei gyflawni a'r hyn a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod blaenorol, ac yn ystyried p'un a oes angen diwygio gweithrediadau Swyddfa Archwilio Cymru wrth symud ymlaen er mwyn gwella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd.

### FF Cynhadledd Llywodraethu Flynyddol

- Yn ogystal â'r adolygiadau bob chwe mis, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal Cynhadledd Llywodraethu flynyddol. Bydd holl aelodau anweithredol a Phartneriaid Swyddfa Archwilio Cymru yn bresennol ynghyd â rhanddeiliaid allweddol, ac arbenigwyr o'r tu allan i Gymru/nas cysylltir â chyrff a archwilir gan Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd hyn yn rhoi cyfle i gynnal trafodaeth ddeuffordd â sail eang ar flaenoriaethau a gweithgareddau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn yn arwain at Adroddiad Llywodraethu a gyflwynir i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ei ystyried.

21 Trefniadau eraill:

- Byddaf yn gwahodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i ddiweddaru llythyr y Swyddog Cyfrifyddu i mi gynnwys y trefniadau llywodraethu newydd a gynigir gennyf.

- Caiff nifer aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg ei leihau i bedwar aelod anweithredol, y bydd un ohonynt yn cadeirio'r pwyllgor. Caiff y ddau aelod arall eu gwahodd i wasanaethu ar un o'r ddau bwyllgor arall. Caiff cylch gorchwyl Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg ei ddiwygio i gyfeirio ffocws y pwyllgor at faterion archwilio a rheoli risg.

- Caiff pob aelod anweithredol newydd a phob aelod anweithredol yn y dyfodol ei recriwtio gan ddefnyddio egwyddorion Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus h.y. yn seiliedig ar deilyngdod, yn ddarostyngedig i graffu annibynnol, cyfle cyfartal, gonestrwydd, didwylled a thryloywder, a chymesuredd.

22 Byddaf yn gwahodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, i fod yn rhan o'r broses derfynol o ddewis yr holl aelodau anweithredol newydd a'r aelodau anweithredol yn y dyfodol, ochr yn ochr â mi.